



Llywodraeth Cymru
Dogfen Ymgynghori

Rheoliadau Addysg (Diwygiadau sy'n Ymwneud â Gwybodaeth Aseidiadau Athrawon) (Cymru) 2018

Dyddiad cyhoeddi: 14 Tachwedd 2017
Camau i'w cymryd: Ymatebion erbyn: 31 Ionawr 2018

Rheoliadau Addysg (Diwygiadau sy'n Ymwneud â Gwybodaeth Asesiadau Athrawon) (Cymru) 2018

Trosolwg Mae'r ymgynghoriad hwn yn gofyn am sylwadau ar y 'Rheoliadau Addysg (Diwygiadau sy'n Ymwneud â Gwybodaeth Asesiadau Athrawon) (Cymru) 2018 a ddôl i rym yng Haf 2018' o ganlyniad i newidiadau arfaethedig a wneir i'r defnydd o ddata asesiadau athrawon a Phroffion Darllen a Rhifedd Cenedlaethol yng Nghymru.

Sut i ymateb Dylid e-bostio/postio ymatebion i'r ymgynghoriad hwn i'r cyfeiriad isod i gyrraedd erbyn **30 Ionawr 2018** fan hwyraf.

Rhagor o wybodaeth a dogfennau cysylltiedig **Gellir gwneud cais am fersiynau o'r ddogfen hon mewn print bras, mewn Braille neu mewn ieithoedd eraill.**

Addysg Cymru: Cenhadaeth ein cenedl (2017)
Cwricwlwm i Gymru – cwricwlwm am oes (2015)
Dyfodol Llwyddiannus: Adolygiad Annibynnol o'r Cwricwlwm a'r Trefniadau Asesu yng Nghymru (2015)
Addysgu Athrawon Yfory (Prifysgol Rhydychen, 2015)

Mae'r dogfennau ymgynghori ar gael o wefan Llywodraeth Cymru yn <https://ymgynghoriadau.llyw.cymru/>

Mae manylion pellach yn ymwneud â diwygio'r cwricwlwm yng Nghymru i'w gweld yn gov.wales/topics/educationandskills/schoolshome/curriculuminwales/curriculum-for-wales-curriculum-for-life/?skip=1&lang=cy

Manylion cysylltu I gael rhagor o wybodaeth:

Tîm Deddfwriaeth Diwygio'r Cwricwlwm
Yr Is-adran Cwricwlwm, Asesu ac Addysgeg
Y Gyfarwyddiaeth Addysg
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

e-bost: DeddfwriaethDiwygiorCwricwlwm@llyw.cymru
Ffôn: 0300 025 5977

Diogelu data Sut y byddwn yn defnyddio'r farn a'r wybodaeth a roddwch inni

Bydd unrhyw ymateb a anfonwch atom yn cael ei weld yn llawn gan staff Llywodraeth Cymru sy'n gweithio ar y materion y mae'r ymgynghoriad hwn yn ymdrin â nhw. Mae'n bosibl y bydd aelodau eraill o staff Llywodraeth Cymru yn gweld yr ymateb hefyd, er mwyn eu helpu i gynllunio ymgynghoriadau ar gyfer y dyfodol.

Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion i'r ddogfen hon. Mae'n bosibl hefyd y byddwn yn cyhoeddi'r ymatebion yn llawn. Fel arfer, bydd enw a chyfeiriad (neu ran o gyfeiriad) yr unigolyn neu sefydliad a anfonodd yr ymateb yn cael eu cyhoeddi gyda'r ymateb. Mae hynny'n helpu i ddangos bod yr ymgynghoriad wedi'i gynnal yn briodol. Os nad ydych yn dymuno i'ch enw a'ch cyfeiriad gael eu cyhoeddi, rhowch wybod inni yn ysgrifenedig wrth anfon eich ymateb. Byddwn wedyn yn cuddio'ch manylion.

Mae'n bosibl y bydd yr enwau a'r cyfeiriadau y byddwn wedi'u cuddio yn cael eu cyhoeddi'n ddiweddarach, er nad yw hynny'n debygol o ddigwydd yn aml iawn. Mae Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 a Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004 yn caniatáu i'r cyhoedd gael gweld gwybodaeth a gedwir gan lawer o gyrff cyhoeddus, gan gynnwys Llywodraeth Cymru. Mae hynny'n cynnwys gwybodaeth sydd heb ei chyhoeddi. Fodd bynnag, mae'r gyfraith hefyd yn caniatáu i ni gadw gwybodaeth yn ôl dan rai amgylchiadau. Os bydd unrhyw un yn gofyn am gael gweld gwybodaeth a gadwyd yn ôl gennym, bydd rhaid inni benderfynu a ydym am ei rhyddhau ai peidio. Os bydd rhywun wedi gofyn inni beidio â chyhoeddi ei enw a'i gyfeiriad, bydd hynny'n ffaith bwysig i ni ei chadw mewn cof. Fodd bynnag, fe allai fod rheswm pwysig dros orfod datgelu enw a chyfeiriad unigolyn, er ei fod wedi gofyn i ni beidio â'u cyhoeddi. Byddem yn cysylltu â'r unigolyn ac yn gofyn am ei farn cyn gwneud unrhyw benderfyniad terfynol i ddatgelu'r wybodaeth.

Cynnwys

Cyflwyniad	2
Cefndir	2
Y cynnig	3
Y dyfodol	3
Manylion deddfwriaethol a'r rheoliadau diwygio arfaethedig	4
Diwygiadau polisi canlyniadol	6
Ymchwil ac ystadegau swyddogol	8
Ymchwil a gwerthuso	8
Ystadegau swyddogol	8
Ystyriaethau eraill	9
Asesiad Effaith Rheoleiddiol	9
Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant	9
Diogelu data	9
Diwygiadau technegol	10
Atodiad A: Rheoliadau Addysg (Diwygiadau sy'n Ymwneud â Gwybodaeth Asesiadau Athrawon) (Cymru) 2018 [heb eu cynnwys yn y ddogfen]	
Atodiad B: Amserlen ar gyfer casgliadau a datganiadau data allweddol ar hyd y flwyddyn ysgol [heb ei chynnwys yn y ddogfen]	
Atodiad C: Tabl o ddogfennau canllawiau i'w diwygio [heb ei gynnwys yn y ddogfen]	
Atodiad D: Asesiad Effaith Rheoleiddiol [heb ei gynnwys yn y ddogfen]	
Atodiad E: Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant [heb ei gynnwys yn y ddogfen]	
Atodiad F: Geirfa Termau [heb ei chynnwys yn y ddogfen]	

Cyflwyniad

Cefndir

1. Yn dilyn cyhoeddi *Dyfodol Llwyddiannus* yn 2015 mae Llywodraeth Cymru ar daith i ddiwygio'r trefniadau cwricwlwm ac asesu ar gyfer dysgwyr 3-16 oed mewn ysgolion.
2. Bydd y cwricwlwm ysgol newydd yn helpu pob plentyn ac unigolyn ifanc i ddod yn:
 - ddysgwyr uchelgeisiol, galluog, parod i ddysgu drwy gydol eu bywydau;
 - cyfranwyr creadigol, mentrus, parod i chwarae rhan lawn mewn bywyd a gwaith;
 - dinasyddion deallus, moesol yng Nghymru a'r byd;
 - unigolion iach, hyderus, parod i fyw bywyd llawn fel aelodau gwerthfawr o'r gymdeithas.
3. Er mwyn cefnogi hyn, mae angen sicrhau bod trefniadau asesu ac atebolrwydd ysgolion yn cyd-fynd â'r dibenion hyn. Mae'r ymgynghoriad hwn yn nodi dechrau'r newidiadau y bydd angen eu gwneud i'r system atebolrwydd bresennol.
4. Ein hamcan yw gwireddu'r manteision i ddysgwyr drwy ailffocysu asesu ar ei brif ddiben sef darparu gwybodaeth a all arwain penderfyniadau ynglŷn â'r ffordd orau o ddatblygu dysgu pobl ifanc ac adrodd ar y cynnydd hwnnw i'w rhieni a'u gofalwyr. Pan ddefnyddir asesu at ddibenion dysgu, mae'n golygu bod yr addysgu bob amser yn addasol, yn benodol i'r dysgwr ac yn cefnogi'r broses o godi safonau i bawb. Mae'n caniatáu i ysgolion a chyrff eraill gynllunio a gwella er lles pob dysgwr. Trwy wneud hynny, dylai asesu wella dysgu dysgwyr, addysgu athrawon a dealltwriaeth rhieni a gofalwyr.
5. Roedd adroddiad diweddar y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd (OECD)¹ ar ein taith i ddiwygio addysg yn cydnabod bod ymrwymiad i wella addysgu a dysgu yn ein hysgolion yn weladwy ar bob lefel o'r system addysg. Un o argymhellion yr adroddiad oedd yr angen i Gymru symud tuag at system newydd o asesu, gwerthuso ac atebolrwydd sy'n cyd-fynd â'r cwricwlwm newydd ar gyfer yr 21ain ganrif.
6. Mae gan asesu parhaus o ansawdd uchel rôl hanfodol mewn addysgu, dysgu a chodi safonau. Dylai fod yn nodwedd naturiol ac annatod o waith dosbarth, a bydd trefniadau asesu yn y dyfodol yn rhoi blaenoriaeth i hyn. Fel y cyhoeddwyd yn ddiweddar wrth lansio *Addysg Cymru: Cenhadaeth ein cenedl*, mae Llywodraeth Cymru yn datblygu model atebolrwydd newydd. Bydd y model newydd yn cael ei ddatblygu i sicrhau ei fod yn cefnogi diwygio'r cwricwlwm ac asesu yn effeithiol. Rydym yn gweithio gydag ysgolion, Estyn a'r consortia rhanbarthol, ac yn cymryd cyngor gan arbenigwyr rhyngwladol ar asesu i sicrhau bod pwyslais newydd ar Asesu ar gyfer Dysgu a bod y dysgwr yn ganolog i'n hargymhellion.

¹ <https://www.oecd.org/edu/The-Welsh-Education-Reform-Journey.pdf>

Y cynnig

7. O 2018/19 ni fydd Llywodraeth Cymru mwyach yn cyhoeddi data asesiadau athrawon a Phrofion (prawf) Darllen a Rhifedd Cenedlaethol islaw'r lefel genedlaethol. Ni fydd data Asesiadau Athrawon a phrofion yn cael ei gynnwys yn Adroddiadau Cymharol Ysgolion, Setiau Data Craidd Cymru Gyfan ('pecynnau data') ac ar wefan Fy Ysgol Leol². O ganlyniad, bydd cyhoeddiadau data arferol gan Lywodraeth Cymru i ysgolion ac awdurdodau lleol yn symlach.
8. Er mwyn galluogi'r newidiadau hyn, mae Llywodraeth Cymru yn argymhell diwygiadau i'r gofynion ar y defnydd o ddata asesiadau athrawon islaw'r lefel genedlaethol. Atodir rheoliadau drafft i roi'r newidiadau mewn grym yn Atodiad A: '*Rheoliadau Addysg (Diwygiadau sy'n Ymwneud â Gwybodaeth Asesiadau Athrawon) (Cymru) 2018*'. Argymhellir y dylai'r rheoliadau sy'n diwygio ddod i rym erbyn haf 2018.
9. Bydd y newidiadau arfaethedig yn berthnasol i'r Cyfnod Sylfaen, Cyfnod Allweddol 2 a Chyfnod Allweddol 3 ym mhob ysgol gynradd ac uwchradd a gynhelir gan awdurdodau lleol yng Nghymru. D.S. **Nid yw Cyfnod Allweddol 4 wedi'i gynnwys**, ac nid yw'r ymgynghoriad hwn yn effeithio'n uniongyrchol ar gymwysterau neu'r defnydd o ddata ar gymwysterau.
10. Yn ogystal, nodi'r ymgynghoriad yma nifer o fân newidiadau technegol i reoliadau presennol. Nid yw'r mân newidiadau hyn yn effeithio ar yr argymhelliad, a maent wedi eu cynnwys er gwybodaeth.

Y dyfodol

11. O 2018/19, bydd data asesiadau athrawon ar gael ar lefel genedlaethol yn unig (yn amodol ar ein rhwymedigaethau o dan Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000). Bydd ysgolion, cyrff llywodraethu ac awdurdodau lleol yn parhau i allu gweld eu data eu hunain ochr yn ochr â'r data ar lefel genedlaethol i werthuso pa mor dda y mae eu hysgol(ion) yn perfformio ac i lywio eu gwaith cynllunio. Ni fydd newid i'r trefniadau presennol o ran casglu a dilysu data o ysgolion drwy awdurdodau lleol (a chonsortia rhanbarthol). Mae rhestr lawn o ymarferion casglu a rhyddhau data sy'n bodoli'n barod i'w gweld yn Atodiad B.

² Mae geirfa termau i'w gweld yn Atodiad F.

Manylion deddfwriaethol a'r rheoliadau diwygio arfaethedig

12. Ategir y trefniadau atebolrwydd presennol gan gyfres o reoliadau a chanllawiau statudol³. Bydd y rheoliadau arfaethedig newydd (yn Atodiad A) yn diwygio nifer o'r rheoliadau cyfredol sy'n gosod dyletswyddau ar ysgolion, awdurdodau lleol a chyrrff eraill i ddefnyddio adroddiadau cymharol ysgolion neu becynnau data. Nodi'r rheoliadau isod.

1. Rheoliadau Adroddiad Pennaeth i Rieni a Disgyblion sy'n Oedolion (Cymru) 2011

13. Mae'r rheoliadau hyn yn ei gwneud yn ofynnol i benaethiaid adrodd ar berfformiad ysgol i rieni a disgyblion sy'n oedolion bob blwyddyn ysgol a bydd hyn yn parhau.

14. Argymhellir bod y rheoliadau hyn yn cael eu diwygio fel na fydd yr adroddiad bellach yn cynnwys gwybodaeth gymharol ysgolion (ar gyfer asesiadau athrawon a phrofion) sy'n cymharu perfformiad ysgol ag ysgolion eraill yn yr awdurdod lleol neu yn y 'teulu o ysgolion'.

15. Bydd rhieni'n parhau i gael adroddiadau gan benaethiaid, gan gynnwys y wybodaeth y mae arnynt ei hangen i ddeall perfformiad ysgol eu plentyn. Bydd rhieni hefyd yn gallu cymharu perfformiad ysgol eu plentyn â gwybodaeth genedlaethol.

2. Rheoliadau Adroddiadau Blynyddol Llywodraethwyr Ysgol (Cymru) 2011

16. Mae'r rheoliadau hyn yn ei gwneud yn ofynnol i gyrrff llywodraethu gynhyrchu adroddiad blynyddol i rieni a bydd hyn yn parhau.

17. Argymhellir y dylid diwygio'r rheoliadau hyn fel na fydd adroddiad blynyddol y llywodraethwyr yn cynnwys adroddiadau cymharol ysgolion mwyach (ar gyfer asesiadau athrawon a phrofion).

18. Bydd rhieni'n parhau i allu gweld adroddiadau gan y llywodraethwyr, gan gynnwys y wybodaeth sydd ei hangen arnynt i ddeall perfformiad ysgolion eu plant.

3. Rheoliadau Gwybodaeth Ysgolion (Cymru) 2011

19. Mae'r rheoliadau hyn yn ei gwneud yn ofynnol i gyrrff llywodraethu gynhyrchu prosectysau a bydd hyn yn parhau.

20. Argymhellir y dylid diwygio'r rheoliadau hyn fel na fydd prosectysau'r cyrrff llywodraethu yn cynnwys adroddiadau cymharol ysgolion mwyach (ar gyfer asesiadau athrawon a phrofion).

21. Bydd y prosectws yn parhau i gynnwys gwybodaeth gyffredinol am yr ysgol i rieni, dysgwyr a phawb arall sydd â diddordeb. Byddant yn parhau i ddangos gwybodaeth am berfformiad yr ysgol ei hun, a bydd gwybodaeth gymharol yn parhau i fod ar gael ar lefel genedlaethol.

³ Mae rhestr o'r canllawiau sydd i'w diwygio i'w gweld yn Atodiad C

4. Rheoliadau Llywodraethu Ysgolion a Gynhelir (Gofynion Hyfforddiant ar gyfer Llywodraethwyr) (Cymru) 2013

22. Mae'r rheoliadau hyn yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol sicrhau bod llywodraethwyr ysgolion yn cael hyfforddiant ar ddeall a defnyddio data ysgolion, ac yn pennu cynnwys yr hyfforddiant hwnnw.
23. Bydd canllawiau Llywodraeth Cymru i lywodraethwyr ysgolion ar ddeall data perfformiad⁴ yn cael ei ddiwygio fel na fydd mwyach yn cynnwys cyfeiriadau at ddata asesiadau athrawon a phrofion, mewn perthynas â pheccynnau data ac Adroddiadau Cymharol Ysgolion.
24. Mae'r gofyniad i sicrhau bod llywodraethwyr ysgolion yn parhau i gael hyfforddiant angenrheidiol ar gyfer defnyddio data i ddwyn ysgolion i gyfrif yn parhau.

5. Rheoliadau Addysg (Cynlluniau Datblygu Ysgolion) (Cymru) 2014

25. Mae'r rheoliadau hyn yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff llywodraethu lunio cynlluniau datblygu ysgolion i hyrwyddo safonau uchel o gyflawniad addysgol.
26. Argymhellir y dylid diwygio'r rheoliadau hyn drwy gael gwared ar y gofyniad i roi sylw dyladwy i wybodaeth gymharol ysgolion (Adroddiadau Cymharol Ysgolion). Bydd y canllawiau sy'n ymwneud â chynlluniau datblygu ysgolion yn cael eu diwygio yn unol â hynny.
27. Bydd modd gweld data ar lefel genedlaethol o hyd a bydd gan gyrff llywodraethu ddata o'u hysgolion eu hunain. Bydd hyn yn sicrhau bod ysgolion a chyrrff llywodraethu yn parhau i fod â gwybodaeth ar gael ar gyfer hunanwerthuso a chynllunio.

6. Rheoliadau Perfformiad Ysgolion a Thargedau Absenoldeb (Cymru) 2011

28. Mae'r rheoliadau hyn yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff llywodraethu osod targedau perfformiad ar gyfer dysgwyr a thargedau i leihau absenoldebau ysgol, (a'u cyflwyno i'w hawdurdod lleol).
29. Argymhellir y dylid diwygio'r rheoliadau hyn i gael gwared ar gyfeiriadau at ddata cymharol fel sy'n cael ei gynnwys ym mhecynnau data asesu athrawon ar gyfer yr ail a'r trydydd cyfnod allweddol.
30. Bydd yr holl ofynion sy'n ymwneud â gosod targedau ar gyfer pob Cyfnod Allweddol yn parhau yn eu lle (sy'n cyd-fynd â'r polisi hunanwella ysgolion).

⁴ 'Deall Data Perfformiad – Canllawiau ar gyfer Llywodraethwyr Ysgol yng Nghymru' a gyhoeddir, cyn i'r rheoliadau sy'n diwygio ddod i rym (haf 2018)

Diwygiadau polisi canlyniadol

31. Mewn ymateb i'r ffaith na fydd yn cyhoeddi data asesiadau athrawon a phrofion mwyach islaw'r lefel genedlaethol, bydd Llywodraeth Cymru yn symleiddio prosesau eraill.

- a. Rydym wedi ymrwymo i barhau i ddatblygu'r broses Genedlaethol ar gyfer Categorioreiddio Ysgolion, a sefydlwyd yng nghyd-destun yr adolygiad sylfaenol o systemau atebolrwydd. Ar gyfer ysgolion cynradd, ni fydd Cam 1 y broses gategorioreiddio yn cael ei ddefnyddio bellach, gan na fydd data asesiadau athrawon ar gael mwyach. Fodd bynnag, gallai gwelliannau gynnwys cryfhau Cam 2, er enghraifft, i sicrhau bod y broses ar gyfer gategorioreiddio ysgolion yn parhau'n gadarn.
- b. Mae elfennau o wefan Fy Ysgol Leol yn dibynnu ar ddata asesiadau athrawon a gesglir islaw'r lefel genedlaethol. Er enghraifft, mae hyn yn cynnwys data a ddefnyddir yng Ngham 1 y broses o gategorioreiddio ysgolion ar gyfer ysgolion cynradd. Lle bo'n berthnasol, ni fydd gwybodaeth o'r fath yn cael ei chyhoeddi ar y wefan mwyach. Bydd y wefan yn parhau i gynnwys canlyniadau Cyfnod Allweddol 4 a data presenoldeb. Bydd rhieni hefyd yn dal i allu cael mathau eraill o wybodaeth am ysgolion eu plant, megis prospectws yr ysgol, gan gyrrff llywodraethu a phenaethiaid.
- c. Ni fydd Llywodraeth Cymru yn parhau i gynhyrchu a chyhoeddi Adroddiadau Cymharol Ysgolion a Setiau Data Craidd Cymru ('pecynnau data') ar gyfer y data asesiadau athrawon. Yn ystod arolwg, bydd Estyn ond yn adrodd ar ddata a gasglwyd yn genedlaethol ac ar ddata perfformiad a wiriwyd yn allanol.

32. Mae newidiadau yn y dyfodol i drefniadau atebolrwydd yn cael eu trafod gydag ysgolion, awdurdodau lleol a chonsortia a byddant yn cadarnhau'r cyfarwyddyd newydd hwn.

33. Yn y cyfamser, bydd y trefniadau canlynol yn parhau:

- a. Bydd plant yn parhau i gael eu hasesu, a bydd penaethiaid ac athrawon yn dal i ddarparu adroddiad ysgrifenedig i rieni a fydd yn nodi gwybodaeth am y plentyn unigol a'r cynnydd y mae'r plentyn wedi'i wneud yn ystod y flwyddyn academaidd honno.
- b. Bydd asesiadau athrawon a'r Profion Darllen a Rhifedd Cenedlaethol yn parhau mewn ysgolion fel rhan o asesu ar gyfer dysgu.
- c. Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i gasglu data asesiadau athrawon a data profion gan ysgolion.
- d. Ni fydd trefniadau cyfredol ynghylch llif data i awdurdodau lleol (a chonsortia rhanbarthol) o ysgolion yn newid.
- e. Bydd ysgolion ac awdurdodau lleol yn parhau i allu cael mynediad at eu data eu hunain.

- f. Bydd llywodraethwyr ysgolion yn dal i ddwyn ysgolion i gyfrif am eu perfformiad a byddant yn cyhoeddi adroddiad blynyddol.
- g. Bydd ysgolion yn parhau i osod targedau perfformiad, cyhoeddi prosiectws ysgol a chwblhau eu cynllun datblygu ysgol.
- h. Bydd systemau ar gyfer gwerthuso perfformiad staff ysgol yn parhau

Ymchwil ac ystadegau swyddogol

Ymchwil a gwerthuso

34. Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i gasglu data ar lefel dysgwyr unigol i alluogi ymchwil a gwerthuso mewn perthynas ag ymyriadau polisi penodol - er enghraifft, er mwyn deall yr effaith ar ddeilliannau dysgwyr ar raglenni datblygu ychwanegol drwy gydol y system addysg. Mae ein gallu i lywio polisïau eraill, megis iechyd a gwasanaethau cymdeithasol, hefyd yn caniatáu ymchwil trawsbynciol sylweddol. Bydd hyn yn sicrhau ein bod yn parhau i ddeall a chynnal tryloywder o ran tueddiadau perfformiad cenedlaethol a gwahaniaethau ymhlith grwpiau o ddysgwyr megis prydau ysgol am ddim, anghenion addysgol arbennig (AAA) a nodweddion cydraddoldeb er mwyn llywio cyfeiriad polisi.

Ystadegau swyddogol

35. Ceir goblygiadau hefyd o ran cyhoeddi ystadegau swyddogol y mae Prif Ystadegydd Llywodraeth Cymru wedi eu hystyried ac sydd wedi'u cynnwys yn yr ymgynghoriad hwn.

36. Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i gyhoeddi ystadegau swyddogol ar lefel genedlaethol. Hefyd, mae data asesiadau athrawon a phrofion ar gyfer awdurdodau lleol ac unedau daearyddol eraill megis Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Lleol hefyd yn cael ei gyhoeddi ar hyn o bryd ar [Ystadegau Cymru](#) a [StatsWales](#). Ni chyhoeddir data canlyniadau ar lefel ysgol ar y gwefannau hyn.

37. O dan y Cod Ymarfer ar gyfer Ystadegau Swyddogol, y Prif Ystadegydd yn unig sy'n gyfrifol am fformat, cynnwys ac amseriad ystadegau swyddogol. Er mwyn newid ffocws y defnydd o ddata asesiadau athrawon i gefnogi dysgu, mae Prif Ystadegydd Llywodraeth Cymru yn argymhell rhoi'r gorau i gyhoeddi data'n rhagweithiol ar gyfer awdurdodau lleol yn y [datganiad ystadegol blynyddol](#) ar berfformiad cenedlaethol a'r [tablau StatsCymru](#) cysylltiedig.

38. Bydd data yn parhau i gael ei gyhoeddi'n rhagweithiol ar gyfer gwybodaeth ddaearyddol ystadegol a gwybodaeth ddaearyddol arall e.e. Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Lleol ac etholaethau cynulliad, lle nad yw pwrpas, defnydd a ffocws y data yn gysylltiedig ag atebolrwydd ysgol. Er enghraifft, er mwyn cefnogi'r gwaith o gynhyrchu Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru.

39. Er mwyn diwallu anghenion y defnyddiwr, bydd y data ar lefelau daearyddol islaw lefel Cymru yn parhau i fod ar gael drwy wneud cais amdano.

Ystyriaethau eraill

Asesiad Effaith Rheoleiddiol

40. Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidog Cymru ar gynnal Aseidiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r rheoliadau sy'n diwygio. O ganlyniad, paratowyd asesiad effaith rheoleiddiol drafft ar gyfer ei ystyried a rhoi sylwadau arno. Gweler Atodiad D.

Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant

41. Mae Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011 yn gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i roi sylw dyladwy i Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn mewn perthynas â chyflawni eu swyddogaethau. O ganlyniad, paratowyd asesiad o'r effaith ar hawliau plant. Gweler Atodiad E.

Diogelu data

42. Er mwyn sicrhau diogelwch data, byddwn yn dilyn arferion sy'n bodoli'n barod ac sy'n cydymffurfio â Deddf Diogelu Data 1998, ac o 25 Mai 2018 gyda'r Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol. Bydd yr holl wybodaeth a rennir o dan y cymalau hyn yn cael ei chadw a'i throsglwyddo drwy systemau trosglwyddo ffeiliau electronig diogel a gwefannau sydd wedi cael eu profi'n drylwyr ac sy'n cadw at safonau diogelwch gwybodaeth rhyngwladol.

43. Ni fydd gwybodaeth sy'n ei gwneud hi'n bosibl adnabod dysgwyr unigol yn cael ei chyhoeddi. Bydd unrhyw wybodaeth a gyhoeddir i'w gweld ar ffurf anhysbys, gydgasgledig. Bydd ystadegau a gyhoeddir yn defnyddio protocolau safonol i 'gelu' ffigurau sy'n ymwneud â niferoedd bach o fyfyrwyr (fel arfer lle mae cwrs neu grŵp yn cynnwys pump neu lai o fyfyrwyr) er mwyn lleihau'r risg o allu adnabod myfyriwr unigol.

Diwygiadau technegol

44. Fel y soniwyd ym mharagraff 11, ceir nifer o fân newidiadau technegol digysylltiad. Mae'r diwygiadau hyn wedi'u nodi isod.

Rheoliadau i'w diwygio	Rheswm dros y diwygio
<p>Rheoliadau Addysg (Gwybodaeth am Ddisgyblion Unigol) (Cymru) 2007</p>	<p>Ceir newid yn y ffordd y caiff data chweched dosbarth ei gasglu. Mewn cyferbyniad â blynyddoedd blaenorol, cesglir y data hwn yn ôl-weithredol. Gwneir newidiadau i adlewyrchu'r newid hwn yn ymarferol.</p> <p>Yn 2013, cafodd Sgiliau Sylfaenol ei dynnu oddi ar y Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion (CYBLD). Mae'r data hwn bellach yn cael ei gasglu gan system wahanol, y darperir ar ei chyfer gan reoliadau eraill. Gwneir newidiadau i adlewyrchu'r newid polisi hwn.</p> <p>Ceir Rhifau Unigryw Dysgwyr o'r Gwasanaeth Cofnodion Dysgu. Câi porth y Gwasanaeth Cofnodion Dysgu ei reoli'n wreiddiol gan yr Asiantaeth Ariannu Sgiliau. Fodd bynnag, ym mis Ebrill eleni newidiodd yr Asiantaeth Ariannu Sgiliau yn Asiantaeth Ariannu Addysg a Sgiliau. Asiantaeth weithredol yw hon a noddir gan yr Adran Addysg ac mae'n creu un asiantaeth gyllido sy'n atebol am ariannu addysg a hyfforddiant i blant, pobl ifanc ac oedolion. Er mwyn cael Rhif Unigryw'r Dysgwr, mae'n ofynnol i Lywodraeth Cymru ddarparu gwybodaeth i'r corff hwn. Gwneir newidiadau i adlewyrchu'r newid enw.</p>
<p>Rheoliadau Perfformiad Ysgol a Thargedau Absenoldeb (Cymru) 2011</p>	<p>Roedd un o argymhellion yr adolygiad o gymwysterau ar gyfer Cyfnod Allweddol 4 yn cynnwys newid y boblogaeth o ddisgyblion y byddwn yn eu defnyddio i fesur cyrhaeddiad disgyblion i ddisgyblion Blwyddyn 11 o 2016 ymlaen, yn hytrach na dysgwyr 15 oed ar ddechrau'r flwyddyn academiaidd fel rydym wedi bod yn ei wneud. Gwneir y newid hwn i sicrhau bod y cohort yr adroddir yn ei gylch ar gyfer perfformiad Cyfnod Allweddol 4 yn cynnwys yr holl ddisgyblion sydd ar ddiwedd eu rhaglen astudio Cyfnod Allweddol 4 ac yn adlewyrchu realiti lefelau cyrhaeddiad ysgolion yn fwy manwl gywir. Gwneir newidiadau er mwyn cyflawni'r newid polisi hwn.</p>

	<p>Cafwyd dau newid polisi o ran y gofynion yng Nghyfnod Allweddol 4: O 2017 ymlaen:</p> <ul style="list-style-type: none"> • ni fydd unrhyw adrodd ar y Dangosydd Pynciau Craidd, ac • ni fyddwn yn casglu niferoedd y rhai sy'n gadael heb gymwysterau. <p>Felly, nid oes gofyniad mwyach i ysgolion osod targedau Cyfnod Allweddol 4 mewn perthynas â'r ddau faes. Gwneir newidiadau er mwyn cael gwared ar y targedau hynny.</p> <p>Ceir mân newid yn 8 (2) (a) (i) ac 8 (2) (a) (iii) i gywiro gwall argraffu yn y Rheoliadau presennol.</p>
<p>Rheoliadau Adroddiad Pennaeth i Rien i a Disgyblion sy'n Oedolion (Cymru) 2011</p>	<p>Diwygiad i reoliad 3(8)(b) i ddiweddarau croesgyfeiriadau yn y rheoliad hwnnw. Effaith hyn yw bod gan y pennaeth fwy o amser i adrodd i rieni a disgyblion sy'n oedolion ar wybodaeth benodol a nodir yn Atodlen 2 i Reoliadau 2011, sef:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Cymwysterau allanol a gyflawnir gan ddisgyblion; • Asesiad mewn profion darllen a rhifedd • Cynnydd yn y fframwaith llythrennedd a rhifedd; • Adroddiad byr am gynnydd y disgybl yn y meysydd dysgu perthnasol (a ddiffinnir yn rheoliadau 2011); • Adroddiad byr am gynnydd y disgybl yn y pynciau perthnasol (a ddiffinnir yn rheoliadau 2011) ar gyfer disgyblion yn yr ail a'r trydydd cyfnod allweddol.
<p>Rheoliadau Gwerthuso Athrawon Ysgol (Cymru) 2011</p>	<p>Diwygio terminoleg o "datblygiad proffesiynol" i "dysgu proffesiynol" er mwyn:</p> <ol style="list-style-type: none"> 1. adlewyrchu terminoleg yr ymagwedd genedlaethol tuag at ddysgu proffesiynol ac iaith y safonau proffesiynol 2. cadarnhau'r safbwynt a chreu geirfa gyffredin ar gyfer dysgu proffesiynol i'r system yma yng Nghymru, a 3. sicrhau bod ymarferwyr eu hunain yn cydnabod y newid mewn diwylliant ac ymagwedd.
<p>Rheoliadau Addysg (Cynlluniau Datblygu Ysgolion) (Cymru) 2014</p>	<p>Fel uchod ar gyfer Rheoliadau Gwerthuso Athrawon Ysgol (Cymru) 2011. Diwygio'r term "datblygiad proffesiynol" yn yr atodlen a nodwyd i fod yn gyson â'r term mwy cwmpasog, "dysgu proffesiynol".</p>